PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 24 Mai 2017

Presennol: Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Mr A Jones, Mr W Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, Miss E Riches, Mr D Roberts, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mr D Williams, Mr G W Jones (Ysgrifenyddes).

Ymddiheuriadau: Mrs M Lake, Mrs T Hibbert, Yr Athro J Hughes, Dr L Jones, Dr K Mundy, Dr L Murphy, Yr Athro C Tully, Mrs E Parry Williams.

## 513. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 1 Chwefror 2017.

## 514. MATERION YN CODI

a) Cofnod 507, Y Canllawiau Dedfrydu Newydd: Mae Cyngor y Brifysgol a'r Pwyllgor Gweithredu wedi derbyn gwybodaeth am y canllawiau newydd. Bydd Penaethiaid, Deoniaid a Dirprwy Is-gangellorion yn cael gwybodaeth am y canllawiau newydd mewn sesiwn gyfarwyddyd i reolwyr a chaiff ei threfnu gyda hyn.

b) Cofnod 508(b(iii)), Offer Diogelwch Allweddol: Mae'r Grŵp Gorchwyl Iechyd a Diogelwch yn parhau i gadw golwg i sicrhau bod offer diogelwch allweddol, a brynwyd drwy gronfeydd ymchwil / grantiau yn cael eu cynnal a chadw fel bo'r angen.

## 515. GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod dwywaith, a nodwyd y materion canlynol:

Cyfarfod 28 Mawrth 2017

i. Cofnod 567, Rheoli Risg Ystadau a Chyfleusterau a Chynaliadwyedd Ariannol:

- Dogfen Cynigion a Risg: Mae wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Ystadau a Chyfleusterau. Bydd y ddogfen yn blaenoriaethu risgiau sy'n deillio o gyfyngiadau adnoddau ac yn cynnwys mesurau lliniaru i reoli risg. Bydd y Grŵp Tasg Ystadau a Chyfleusterau yn ystyried y ddogfen ar ôl iddi gael ei chwblhau.
- Arolwg Cyflwr (Adeiladau a Gwasanaethau): Argymhellir arolwg cyflwr newydd. Bydd contractwyr presennol Ystadau a Chyfleusterau yn hwyluso'r arolwg, gan fod ganddynt wybodaeth dda am ystâd y brifysgol.
- Monitro: Dylai gwelliant yn nhrefn arolygu contractwyr Ystadau a Chyfleusterau wella monitro contractwyr ar y safle. Bydd staff yn defnyddio

teclynnau llaw, sy'n gallu bwydo data yn uniongyrchol i PLANON Accelerator i gefnogi'r broses hon.

Cyfarfod 16 Mai 2017

i. Cofnod 569, Adroddiadau Archwilio ac Adolygu: Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol wrth adolygu'r Ddarpariaeth Cymorth Cyntaf, a oedd yn canolbwyntio ar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith:
   - Ac eithrio ychydig o adeiladau, mae'r gofyniad cyfreithiol sylfaenol o ran staff sydd wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf wedi ei gyflawni.
   - Gwelwyd bod prinder staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf mewn rhai lleoliadau risg uwch. Mae trefniadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i roi sylw i hyn.
   - Bydd y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn rhoi cyngor cliriach i Golegau/Ysgolion/Adrannau ar nodi eu gofynion Cymorth Cyntaf.

ii. Cofnod 566(b), Polisi Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau: Mae trafodaethau'n parhau i greu fersiwn terfynol o'r Polisi. Mae hyn yn cynnwys egluro pa swyddi a thasgau a ystyrir yn hollbwysig o ran diogelwch.

Dilynodd trafodaeth lle argymhellwyd bod y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn ystyried sut i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Cynaliadwyedd Ariannol, a'i grwpiau gweithredu. Argymhellwyd hefyd y dylai'r Bwrdd Cynaliadwyedd Ariannol roi ystyriaeth benodol i oblygiadau iechyd a diogelwch eu dull gweithredu er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli. Gweithredu: Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch

Cytunwyd y dylai'r adran Ystadau a Chyfleusterau gyflwyno adroddiad ysgrifenedig, ynglŷn â chyfyngiadau adnoddau a threfniadau lliniarol, i'r Grŵp Tasg. Gweithredu: Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau

516. SAFONAU POLISI IECHYD A DIOGELWCH

516a Projectau Deifio'r Brifysgol (diwygio)

Mae'r polisi presennol (a gymeradwywyd 21 Mai 2014), yn disodli'r Nodyn Polisi gwreiddiol: OHSU P11 Deifio yn y Gwaith. Ar ôl ei gymeradwyo, cafwyd trafodaethau pellach gyda staff y Brifysgol sydd â phrofiad helaeth o ddeifio gan arwain at nifer o newidiadau. I grynhoi:

*i.* *Enw / Defnydd:* Newidiwyd i *'Projectau Deifio'* ac mae'n awr yn cynnwys *'gweithgareddau deifio sy'n cyfrif tuag at unrhyw gwrs a achredir gan Brifysgol Bangor'.*

ii. *Swyddogaethau a chyfrifoldebau:* Newidiwyd 'Swyddog Diogelwch Deifio' i swyddogaethau deifio safonol: Swyddog Deifio a Goruchwyliwr Deifio ac sy'n egluro mai'r Brifysgol (Deiliad Dyletswydd) yw'r Contractwr Deifio ac nid unigolyn.

iii.

516b

thematig yn yr archwiliad.

a'u bod yn fân anafiadau (e.e. briwiau, cleisiau). Gwelwyd hefyd mai dim ond ychydig iawn o ddiwrnodau gwaith sy'n cael eu colli mewn gwirionedd o ganlyniad i anaf trin a thrafod.

Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn ystyried yn awr pa weithredu pellach sy'n briodol i geisio lleihau digwyddiadau sy'n ymwneud ag anafiadau i ddwylo/breichiau.
Gweithredu: GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH

518